



# Gwers 18

## Galw Brenin



Cyfres Stori Duw

1 Samuel 8:1–22; 15:1–35 • • • • • • • • • •

### Nod:

Gweld fod Duw yn gadael i'w bobl gael brenin, er nad dyna'i ddymuniad ar gyfer Israel / dysgu pa fath o frenin roedd Duw ei eisiau i'w bobl.

### Adnodau:

1 Samuel 8:1–22; 15:1–35.

### Cyflwyno:

Gofynnwch i'r dosbarth ddarllen yn sydyn drwy lyfr y Barnwyr a nodi gymaint o enwau Barnwyr ag y gallant. Cyflwynwch y syniad fod y bobl nawr yn galw am frenin. Trafodwch beth yw'r gwahaniaeth rhwng barnwr a brenin, a pham nad oedd gan Israel frenin eisoes. (Roedd y Barnwyr yn gweithredu fel negeswyr Duw, ond Duw oedd brenin Israel.)

### Darllen yr adnodau:

Darllenwch 1 Samuel 8:1–22 fel dosbarth, penodwch un person i wneud llais Samuel, un arall i fod yn henuriad y bobl ac un arall i fod yn storiwr.

- A oedd Duw yn hapus i'r Israeliaid gael brenin? Na, (8:7–8) Roedd Duw yn sylweddoli fod y bobl yn ei wrthod fel brenin ac yn gofyn am ddyn yn ei le.
- Beth benderfynodd Duw ei wneud? (8:22) Mae Duw yn rhoi'r rhyddid i ni fynd ein ffordd ein hunain weithiau, ond mae o'n dal i'n caru ac eisiau'r gorau ar ein cyfer.

### Gweithgaredd:

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o 3 neu 4, a rhoi detholiad o gylchgronau a rhai sisyrnau i bob grŵp. Gofynnwch iddynt dorri allan pob hysbyseb sy'n cynnwys enwau 'brand' (ee Nike, Superdry, Mars). Dangoswch hwy ar y wal neu fwrdd pin. Trafodwch beth sy'n gwneud hysbysebion yn effeithiol, a sut maent yn dylanwadu ar aelodau'r dosbarth. Arweiniwch y dosbarth i gael trafodaeth fer am bwysau gan gyfoedion 'peer pressure'. A yw'n rhywbeth modern, neu wedi bod yn broblem drwy hanes? Roedd yr Israeliaid yn teimlo o dan bwysau i fod yn debyg i genhedloedd eraill, ac yn poeni mwy am beth oedd pobl eraill yn meddwl ohonynt na'r hyn oedd Duw yn ei feddwl.

### Darllenwch:

Yna darllenwch 1 Samuel 15:1–35. Roedd Saul wedi cychwyn y daith yn frenin addawol: roedd yn gryf, yn olygus, ac yn dilyn Duw. Yma gwelwn Saul yn anufuddhau i Dduw.

### Sgwrs:

Sut wnaeth Saul anufuddhau i Dduw? (15:11 Cefnu ar Dduw a pheidio â chadw ei orchmynion.)

Beth oedd canlyniad Saul yn anufuddhau i Dduw? (15:28 Bydd Duw yn tynnu ei frenhiniaeth oddi arno.)

Beth oedd ymateb Saul i hyn? (15:30 Roedd yn poeni mwy beth fyddai'r bobl yn ei ddweud na beth oedd Duw yn ei ddweud.)

Ydi'r dosbarth weithiau yn teimlo 'peer pressure' i wneud pethau na ddylent? Sut fath o bethau mae pobl ifanc yn teimlo o dan bwysau i'w gwneud? Gofynnwch sut y gellid delio gyda sefyllfa felly, a gofyn am 'dips' beth i'w wneud. Atgoffwch y dosbarth ei bod yn fwy pwysig i credu yn Nuw a dilyn ei orchmynion, na thrio plesio'n ffrindiau a phobl eraill.

### **Amser Addoli:**

Weithiau mae Duw yn gadael i ni fynd ein ffordd ein hunain, ond fel y dysgodd Saul, mae yna ganlyniadau i bob peth yr ydym yn ei wneud.

Gofynnwch i'r dosbarth feddwl yn dawel am beth maent hwy yn teimlo pwysau gan eu cyfoedion i wneud/dweud, sy'n groes i ewyllys Duw.

Gorffennwch gyda gair o weddi yn diolch i Dduw am ein caru, ac yn gofyn am help i gerdded ar hyd ei lwybr ef.